**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-522
Ein cyf/Our ref
KW/07174/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

Annwyl Janet,

7 Ionawr 2021

Diolch am eich e-bost dyddiedig 16 Rhagfyr a oedd yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth lefel uchel am reoli asbestos mewn ysgolion.

Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth lefel uchel bellach wedi'i gwblhau a chyhoeddir y data a ddangosir drosodd cyn diwedd Ionawr.

Hoffwn ichi nodi bod yr wybodaeth a ddarperir mor gyfredol â phosibl, ac fel y nodwyd eisoes, nid data Llywodraeth Cymru ond casgliad o ffurflenni data wedi'u dilysu gan awdurdodau lleol ledled Cymru yw'r wybodaeth. Nid yw ychwaith yn adlewyrchu lefel yr asbestos sy'n bresennol ym mhob ysgol, sy'n gallu amrywio o fod yn isel i fod yn fwy eang.

Fel rhan o'r data hyn, mae pob awdurdod lleol wedi cadarnhau bod gan bob ysgol sydd ag asbestos sy'n bresennol gynllun rheoli asbestos ar waith. Deallwn fod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ddeiliad y ddyletswydd i sicrhau ei fod yn gofnod cywir o'r asbestos sy'n bresennol. Mae cynlluniau o'r fath ar gael i'r holl staff, ymwelwyr a chontractwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Awdurdod lleol | Cyfanswm nifer yr ysgolion | Ysgolion ag asbestos |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 41 | 37 |
| Blaenau Gwent | 28 | 20 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 48 | 26 |
| Caerdydd | 111 | 91 |
| Sir Gaerfyrddin | 109 | 97 |
| Caerffili | 87 | 78 |
| Ceredigion | 50 | 42 |
| Conwy | 60 | 52 |
| Sir Ddinbych | 54 | 42 |
| Sir y Fflint | 75 | 66 |
| Gwynedd | 105 | 98 |
| Sir Fynwy | 34 | 32 |
| Merthyr Tudful | 28 | 23 |
| Casnewydd | 51 | 45 |
| Castell-nedd Port Talbot | 63 | 51 |
| Sir Benfro | 65 | 44 |
| Powys | 101 | 88 |
| Rhondda Cynon Taf | 121 | 99 |
| Abertawe | 97 | 92 |
| Torfaen | 43 | 30 |
| Bro Morgannwg | 58 | 48 |
| Wrecsam | 68 | 51 |
| Cyfanswm | 1497 | 1252 |

Rwy’n falch o weld nad oes gan dros 15% o'n hysgolion asbestos, sy'n adlewyrchiad o'r rhan sylweddol y mae ein Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif wedi'i chwarae ers 2014. Bydd hyn yn parhau wrth inni symud ymlaen yn awr gyda'n hail don o gyllid ar gyfer rhaglenni. Rwy o’r farn ei bod yn bwysig inni barhau i fonitro'r effaith y mae buddsoddi'n ei chael ar ddileu asbestos yn ein hystad ysgolion.

O ystyried y sefyllfa ddigynsail a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig i swyddogion mewn awdurdodau lleol, penderfynais leihau nifer y ceisiadau a wnaed iddynt. Roedd hyn yn cynnwys cais am arolwg o'r cyflwr blynyddol sy'n casglu'r wybodaeth am asbestos. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, rwy wedi gofyn i'm swyddogion gynllunio ar gyfer dosbarthu’r cais am arolwg o'r cyflwr eleni, ar ddechrau'r haf, fel y gellir diweddaru gwybodaeth a gyhoeddir yn unol â hynny.

Hoffwn eich sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi deiliaid y ddyletswydd gyda chanllawiau priodol a diweddar i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau o reoli, o fonitro ac, os oes angen, o dynnu asbestos o'u hadeiladau.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education